Chwys yr Haul

Parch at fywyd / Cyfrwystra

Prin y byddai pobl yn mynd am dro i'r gors. A'r unig reswm mae'n siŵr oedd ei bod mor wlyb yno. Doedd yr anifeiliaid chwaith ddim yn rhy hoff o'r gors. O dro i dro byddai ambell fuwch fwy hy na'i gilydd yn rhoi ei thrwyn yno ond buan iawn y byddai hi'n troi'n ôl. Roedd hi, bob amser, rhy wlyb yn y gors ac roedd hi'n anodd iawn gwybod ble i roi eich traed. Ar ddechrau'r haf byddai planhigyn bach rhyfedd yn ymddangos yn y gors. Roedd hwn yn wahanol iawn i'r holl flodau eraill oedd yn tyfu yn y gors. Planhigyn bychan yn tyfu'n isel ar y llawr oedd hwn. Planhigyn bychan oedd wrth ei fodd yn y gwlybaniaeth. Yn wir fuasai o ddim yn gallu byw ar dir sych. Roedd ganddo gryn dipyn o ddail â blew bach coch, gludiog arnyn nhw. Byddai'r blew hyn yn ymddangos yn union fel petai gwlith arnyn nhw. Fel arfer mae gwlith y bore'n codi ond roedd y gwlith yn aros ar hwn drwy'r dydd.

Ddechrau Mehefin byddai blodyn gwyn hir yn ymddangos o ganol y dail. Doedd y blodyn ynddo'i hun ddim yn un arbennig. Yn y dail cochion roedd harddwch hwn.

Ond beth oedd yn wahanol am y planhigyn hwn, chwys yr haul, i'r planhigion eraill oedd yn tyfu yn y gors? Wel, mi roedd chwys yr haul yn byw ar bryfed. Pryfed! Dyna oedd pwrpas y dail blewog, gludiog, Roedd y lliw coch yn denu'r pryfed. Ydi, mae lliwiau yn denu gwahanol fathau o drychfilod. Pan fyddai'r pryfyn yn glanio ar y blew coch, gan feddwl fod yna bryd blasus o fwyd yno, byddai'r glud yn ei ddal. Nid gwlith oedd ar flaenau'r dail ond glud i ddal y mân bryfed. Ac yn araf, araf byddai'r ddeilen yn cau amdano a'i wasgu. Doedd dim modd dianc wedyn. Roedd hi'n rhy hwyr! Ond cofiwch, nid proses gyflym ydi hon. Na, yn araf, araf mae'r ddeilen yn cau am y pry gan sugno'r maeth ohonno. Ymhen diwrnod neu ddau wedyn dim ond coesau ac adennydd y pryfyn fydd ar ôl. Yna bydd y dail yn agor yn araf, araf.

Pam fod chwys yr haul yn gwneud hyn? Tir gwael ydi tir y gors. Does yna ddim llawer o faeth i'w gael o'r tir gwlyb, corsiog. Felly mae chwys yr haul yn dibynnu ar ei faeth o'r pryfed. A dyna i chi ffordd dda o dwyllo'r pry i lanio ar y dail. Blew coch a glud ar ei blaennau! Mae'n nhw'n dweud y gall un planhigyn, ddal cyn gymaint a dwy fil o fân bryfetach mewn tymor. Dyna i chi gamp!

Mae yna blanhigyn arall sy'n dal pryfed. Mae hwn hefyd yn tyfu yn y gors. Enw hwn ydi 'tafod y gors'. Dail hirion siap tafod sydd gan hwn. Pan fydd pryfyn yn glanio ar y ddeilen, bydd y ddeilen wedyn yn cau yn araf amdano. Ar ôl rhai dyddiau dim ond adennydd a choesau fydd ar ôl.

Mae'r ddau blanhigyn yma'n gyffredin iawn yng Nghymru. Dau blanhigyn sy'n cael y maeth angenrheidiol trwy ddal y mân bryfed sy'n hedfan o gwmpas.

Diolch i Ti, O Dduw, am y rhyfeddodau sydd dan fy nhrwyn. Amen.

✦ Pa ran o'r planhigyn hwn sy'n bwysig y blodyn ynteu'r dail?
✦ Ydych chi'n credu fod yr enw Cymraeg ar y planhigyn hwn yn enw da?